

Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ

Hywel

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2019

Amser: 08.30 – 09.45

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd) Rebecca Evans AC Darren Millar AC Rhun ap Iorwerth AC Neil Hamilton AC
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru Claire Fife, Llywodraeth Cymru



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

Dydd Mercher

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Dosbarthodd y Trefnydd gopi caled diwygiedig o 'Amserlen Busnes y Llywodraeth am Dair Wythnos', a bydd yr holl newidiadau'n cael eu dangos ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 3 Ebrill 2019 –

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gweithredu Datganoli Cyllidol yng Nghymru
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 1 Mai*

Dydd Mercher 1 Mai 2019 –

- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 8 Mai*
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

Dydd Mercher 8 Mai 2019 –

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

3.4 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid yn gofyn am ddadl ar – cais am ddadl ar 3 Ebrill

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais.

3.5 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – dethol cynnig ar gyfer dadl

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 3 Ebrill:

NNDM7021 Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig am fil i ddiwygio a gwella cefnogaeth ar gyfer plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) cyflwyno'r Model Barnahus o gymorth i ddioddefwyr gyda phwyslais therapiwtig;

b) gweithio gyda'r heddlu i ddefnyddio'r Model Barnahus o gynnal ymchwiliad i bob achos o gam-drin plant yn rhywiol; ac

c) yn cyflwyno newidiadau statudol i wella llety brys a llety dros dro i blant sydd wedi'u cam-drin, sy'n methu â dychwelyd i'w cartref neu sy'n ddigartref.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i amserlennu'r Dadleuon nesaf ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau ar 15 Mai a 26 Mehefin, a dewiswyd y cynnig canlynol i'w drafod ar 15 Mai. Yn unol â phenderfyniadau blaenorol y Pwyllgor Busnes, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn hysbysu Aelodau o ddyddiadau tymor yr haf.

NNDM7020 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig am fil cerbydau cyhoeddus di-allyriad carbon

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fydd:

(a) hybu'r defnydd o gerbydau trydan neu gerbydau di-allyriadau yng Nghymru er mwyn helpu i leihau allyriadau carbon; a

(b) gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill i lunio strategaeth i symud tuag at ddefnyddio cerbydau trydan neu gerbydau di-allyriadau yn y fflyd gyhoeddus yng Nghymru.

4 Busnes y Cynulliad

4.1 Dyddiadau toriadau'r Cynulliad

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar ddyddiadau'r toriadau ar gyfer Hanner Tymor mis Hydref 2019 a Thoriad y Nadolig 2019.

Gan fod Dydd Calan ar ddydd Mercher yn 2020, ni fydd yn bosibl cynnal shifflad o'r cwestiynau llafar, nac i gynigion gael eu cyflwyno ar y dyddiau arferol yn ystod wythnos olaf y toriad, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i dderbyn busnes ar gyfer 7 ac 8 Ionawr yn ystod wythnos gyntaf y toriad, drwy gynnal balot y cwestiynau llafar ddydd Llun 16 Rhagfyr, gyda'r terfyn amser ar gyfer shifflad y cwestiynau i'r Gweinidogion am 3:30 ddydd Mercher 18 Rhagfyr. Er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried gwelliannau i gynigion ar gyfer y Cyfarfodydd Llawn cyntaf yn ôl ym mis Ionawr, cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid gosod y terfyn amser ar gyfer cynigion ar 7 ac 8 Ionawr am 6pm ddydd Mercher 18 Rhagfyr. Bydd y terfynau amser ar gyfer gwelliannau i gynigion ac ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog yn dilyn y drefn arferol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd y gellid rhoi ystyriaeth yn nes at yr amser i drefnu busnes ar gyfer wythnos gyntaf mis Ionawr a fyddai'n amharu leiaf ar gyflwyno.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y dyddiadau dros dro ar gyfer Hanner Tymor y Gwanwyn a Toriad y Pasg 2020.

4.2 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Pasg

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y trefniadau cyflwyno ar gyfer toriad y Pasg, Calan Mai a hanner tymor y Sulgwyn

5 Rheolau Sefydlog

5.1 Ymgynghoriad ar Filiau Cydgrynhoi

Diwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Cydgrynhoi

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y weithdrefn amlinellol arfaethedig, a gwnaed cais i'r Ysgrifenyddiaeth gyflwyno Rheolau Sefydlog drafft i'w hystyried. O ran yr un maes o ddiffyg cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddogion y Cynulliad (sbarduno Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad), gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth ddrafftio ar gyfer y ddau opsiwn ac archwilio unrhyw drydydd opsiwn a allai fod ar gael.

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr Comisiwn y Gyfraith.

6 Y Pwyllgor Busnes

6.1 Coladu Canllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Trafododd y Rheolwyr Busnes amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r canllawiau a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth gyflwyno drafft diwygiedig yn adlewyrchu'r newidiadau y cytunwyd arnynt, a darparu nodiadau ar feysydd sydd angen eu hystyried ymhellach.

6 Unrhyw Fater Arall

Ffilmio yn y siambr

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai ffotograffydd yn bresennol yn y Siambr ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth nesaf 3 Ebrill.